Cofnodion

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Rhagfyr 2021

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr C Ferris (Cadeirydd), M Whitcutt, P Hourahine, J Clarke, T Watkins, K Thomas, G Giles, M Evans, C Evans and C Townsend

---

1 **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Townsend.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021**

Cymeradwywyd a derbyniwyd bod Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021 yn gofnod gwir a chywir.

4 **Strategaeth Cyfranogiad (Cyflwyniad Diweddaru)**

Gwahoddedigion:
Leanne Rowlands – Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Gareth Price - Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd y Cyngor o ran y strategaeth cyfranogiad ddrafft i annog dinasyddion i gymryd mwy o ran ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Awdurdod Lleol.

Pwyntiau allweddol:
Mae dau ofyniad allweddol er mwyn hyrwyddo swyddogaethau'r Cyngor; y cyntaf yw cyrraedd y cyhoedd drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth a galluogi aelodau o'r cyhoedd i gael gafael ar y wybodaeth yn hawdd. Mae'r Cyngor am roi'r cyfansoddiad mewn un canllaw hygyrch a gwella cyfleuster chwilio gwefan y Cyngor i'w wneud yn haws ei ddefnyddio i annog y cyhoedd i ymgysylltu.

Yr ail ofyniad yw hyrwyddo sut i ddod yn Aelod o'r Cyngor er mwyn cynrychioli trigolion eu cymuned. Mae'r Cyngor am adeiladu ar y dudalen we ar sut i ddod yn gynghorydd, trafododd y Swyddog Arweiniol y pwyntiau yn y cyflwyniad yn fanwl gyda'r Pwyllgor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai hyn yn dod yn ôl i'r Pwyllgor ddiwedd mis Ionawr gyda dogfen ddrafft lawn cyn y cyfnod ymgynghori. Ar ôl yr ymgynghoriad, caiff y strategaeth lawn ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth cyn cyhoeddi'r dyddiad cau ym mis Mai.

Soniodd y Swyddog Arweiniol am y camau pellach y bydd y Cyngor yn eu cymryd dan y ddeddf, fel rhoi cynllun deisebau ar waith fel bod trigolion yn gwybod y broses a bod yr Aelodau'n gwybod beth y gall y Cyngor ei wneud pan fydd yn derbyn deisebau. Mae'r camau nesaf yn cynnwys hyfforddiant i aelodau yn y dyfodol ar ffurf seminarau hyfforddi gan gynnwys hyfforddiant ar bwysigrwydd llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn hapus am y ffaith bod y dogfennau, a oedd i fod i gael eu dychwelyd iddo ym mis Ionawr, wedi'u dychwelyd a nododd fod y cyflwyniad yn hawdd ei ddilyn.
- Sicrhaodd y Cynghorydd Giles fod hyrwyddo'n dda ond bod angen deall iaith a geiriad y Cyngor yn hawdd. Dywedodd yr Aelod y byddai'n dda dysgu beth mae'r cyhoedd wedi'i gyfrannu at y gwaith, a yw'n cynnwys sylwadau cyhoeddus h.y. a yw'r awgrymiadau ar gyfer y wefan yn deillio o adborth ac a yw'r swyddogion wedi ystyried arferion Awdurdodau Lleol eraill.
  Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ei fod wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad o'r hyn y mae trigolion yn edrych arno – nid ar y wefan ar hyn o bryd ond fel arfer mae'n cynnwys arolwg adborth yn gofyn sut beth oedd eu hymweliad y diwrnod hwnnw. Mae'r Gwasanaethau Cwsmeriaid yn cynnal arolygon yn rheolaidd a hefyd yn gofyn am adborth gan drigolion ar y ddarpariaeth ddigidol.
  Mae'r awdurdodau lleol eraill yn yr un sefyllfa o ran datblygu strategaeth ar gyfer mis Mai 2022. Maent hefyd yn gweithio tuag at fodloni'r dyddiad cyhoeddi cyntaf ond maent yn y cam cyntaf o gyhoeddi'r strategaeth, yna ar ôl hynny byddant am wella a datblygu fel y bydd Casnewydd yn ei wneud hefyd.
  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth wrth y Pwyllgor y bwriedir i'r strategaeth fod yn ddogfen fyw - fel man cychwyn, pan fydd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno'r ddogfen derfynol i'r Aelodau, bydd yn ffurfioli'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd. Y bwriad yw ei hadolygu'n gyson gyda chamau i'w gwella dros amser oherwydd ar ôl i'r Cyngor roi strategaeth ar waith, gall weithio gyda'r gymuned ar sut i wella cyfathrebu ar hynny. Ailadroddwyd mai dyma'r dechrau o ran codeiddio dogfen o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd a'r cam cyntaf yw ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Chwefror ar eu barn ar y strategaeth. Pan gaiff ei mabwysiadu ym mis Mai, bydd y Cyngor yn ei defnyddio'n ddogfen sy'n symud ymlaen i weld sut i wella pethau a'i hadolygu gyda chyfres o dargedau gwella.
- Dywedodd y Cynghorydd Watkins ei fod ef, fel Cynghorydd, yn derbyn cwynion parhaus am y ffaith bod gwefan y Cyngor yn rhy gymhleth ei gweithredu felly bydd ganddo ddiddordeb mewn gweld a fydd yr adborth gan drigolion yn sôn am hynny.
- Nododd y Cynghorydd Whitcutt y gall fod yn symlach yn aml i chwilio ar Google am yr hyn sydd ei angen arnynt yn hytrach na chwilio ar wefan y Cyngor ei hun. Dywedwyd bod yr Aelod Cabinet dros Asedau ac Adnoddau wedi bod yn codi'r mater ers amser maith. Ategodd yr Aelod bwynt y Cynghorydd Giles am y math o iaith dan sylw i annog y cyhoedd gan fod angen i'r cyfansoddiad fod yn hawdd ei ddeall ond eto mae angen ymdrin ag ef yn ofalus.
- Cytunodd y Cynghorydd M. Evans â'r pwynt blaenorol nad yw'r wefan yn hawdd ei defnyddio. Dywedodd yr Aelod ei fod yn derbyn cwestiynau gan drigolion am drwyddedau parcio ac y dylai fod yn ymwneud â symlrwydd. Rhoddwyd enghraifft, pe bai rhywun am wylio cyfarfod pwyllgor y Cyngor, byddai'n rhaid iddo fynd ar YouTube a theipio'r cyfarfod yn y bar chwilio gan nad oes dolen uniongyrchol ar y wefan. O ran y cynlluniau deisebau a grybwyllwyd, roedd yr Aelod yn cofio mecanwaith blaenorol a oedd ar waith i ymdrin â deisebau. Gofynnwyd am gael mwy o wybodaeth ym mis Ionawr fel ymchwil ar yr hyn y mae cynghorau eraill yn ei wneud ar ymgysylltu â'r cyhoedd ar ddeisebau. Cyfeiriodd yr Aelod at y pryderon yr oedd y Pwyllgor Craffu wedi'u mynegi am yr ymgynghoriad cyhoeddus ar orchymyn diogelu mannau

cyhoeddus a dywedodd y byddai ganddo ddiddordeb mewn clywed am gynlluniau deisebau eraill yn y Deyrnas Unedig.
Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth fod y polisi a grybwyllwyd yn ymwneud â sut y cyflwynir y deisebau, nid oedd gan y Cyngor strategaeth erioed ar sut yr ymdriniwyd â hwy ac ar sut yr ymatebwyd iddynt. Roedd y deisebau'n arfer cael eu cyflwyno'n ffisegol i'r Maer.
Mae gweithdrefn ar sut y dylid ymdrin â deisebau a'u hadrodd yn rhywbeth y mae'r Cyngor am ei datblygu. Er enghraifft, polisi ar sut yr ymatebir iddynt a sut mae'r Cyngor yn cadw cofnod i ddangos yr ymdrinnir â nhw'n briodol.
Caiff deisebau a'r wefan eu gwella wrth symud ymlaen, ac mae'r ddogfen ymgynghori yn codeiddio'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd ond o ran y ddogfen derfynol gall y pwyllgor benderfynu beth y maent am ei weithredu a thynnu sylw ato.

- Gofynnodd y Cynghorydd M. Evans am eglurhad o ran beth sy'n digwydd i ddeisebau pan gânt eu derbyn gan y Cyngor.
  Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth yr ymdrinnir â nhw ar lefel weithredol ac y cânt eu cyflwyno i Bennaeth y Gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys yr Aelod Cabinet perthnasol os oes angen. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniad a'r ymateb yn cael eu hadrodd yn ôl i unrhyw Bwyllgor fel mater o drefn.
- Gofynnodd y Cynghorydd M. Evans a ellid rhoi gwybod i'r Aelodau am ddeisebau gan y cyhoedd drwy system syml a adroddir i bwyllgorau. Drwy wneud hynny gallant hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Cyngor gan y byddai'r Aelodau'n gwybod y broses. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth y gall y Cyngor ystyried hynny pe hoffai'r Pwyllgor wneud yr argymhelliad.
- Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai eglurder a gwell gwybodaeth o ran sut mae'r Cyngor yn derbyn deisebau yn dda.
  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth nad derbyn deisebau yw'r mater cyfredol. Fe'u cyfeirir at Bennaeth y Gwasanaeth perthnasol a'u cyflwyno ar-lein fel gyda'r Senedd/Dau Dŷ'r Senedd. Fodd bynnag, cydnabu'r swyddog y gellid rhoi mwy o wybodaeth ar wefan y Cyngor ynghylch sut y gellir cyflwyno deisebau. Cydnabuwyd mai'r hyn sydd angen bod yn gliriach yw'r hyn sy'n digwydd i'r deisebau pan fyddant yn y system a bod angen sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o faint sydd wedi dod i law a faint sydd wedi cael ymateb.
- Dywedodd y Cynghorydd K. Thomas ei bod hefyd wedi derbyn cwynion gan drigolion am y wefan, llawer o'r rheiny mewn perthynas â thrwyddedau parcio. Dywedwyd nad yw'r swyddogion wedi derbyn bod problem. Bydd gan yr Aelod ddiddordeb mewn cael gwybod a yw'r data'n dangos bod problem fel pobl yn gadael y wefan ar ôl teimlo trallod gan y profiad o'i defnyddio.
  O ran y cynlluniau deisebau; dywedodd yr Aelod, o ran deisebau ar-lein, nad ydynt yn ymwybodol o'r ffordd y mae'r Senedd yn ymdrin â nhw ar-lein ond soniodd am y gwiriadau sydd eu hangen a'r balansau sydd ar gael yn ffisegol. Defnyddiodd yr Aelod enghraifft ddiweddar lle soniodd trigolyn am ddeiseb yr oedd unigolion ar hap yn ei llofnodi ond efallai na ddeellir y cymwysterau angenrheidiol sydd eu hangen ar drigolion i lofnodi h.y. byddai angen i'r Cyngor wybod sut i wirio dilysrwydd a manylion cyfeiriad pan gânt eu derbyn.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hourahine at sylwadau'r Cynghorydd Whitcutt am y cyfansoddiad. Cydnabuwyd ei fod yn gymhleth a bod cyfansoddiad symlach yn ddarn mawr o waith, dylid ei adolygu a gofyn iddo fod yn faes gwaith posibl y dylai'r Cyngor ei ystyried.
  O ran hysbysu pwyllgor am ddeisebau, nododd yr Aelod na ddylai'r Cyngor ystyried ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth ar ddeisebau sy'n mynd rhagddynt gan y gallai gymryd hyd yn oed mwy o amser. Dadleuwyd nad oes angen system monitro deisebau ar y Cyngor; ond strategaeth benderfynu gadarn o ran yr hyn sy'n digwydd i'r deisebau hyn.

Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth wrth yr Aelodau fod ail-ddrafftio'r cyfansoddiad cyn mis Mai 2022 yn gam gweithredu byrdymor ac nid yn gam gweithredu hirdymor. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod un yn cael ei wneud ar lefel Cymru gyfan a phan fydd y Cyngor yn derbyn hynny, bydd yn ail-ddrafftio ei gyfansoddiad yn y fformat presennol i'w wneud yn fwy hygyrch mewn adrannau perthnasol; ni fydd yn ail-ysgrifennu'r cyfansoddiad. Bydd cynlluniau dirprwyo a chylch gorchwyl mewn gwahanol adrannau.
Gan ei fod yn ddogfen gyfreithiol y mae swyddogaethau gwneud penderfyniadau'r Cyngor wedi'u rhestru ynddi, nid oes llawer y gall y Cyngor ei wneud am ei symlrwydd dan ddeddfwriaeth newydd ond bydd y Cyngor yn cyflwyno crynodeb 10 tudalen ohono gyda dolenni i rannau penodol.
Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth nad ydynt yn awgrymu ei fod yn cael ei gyflwyno i bwyllgor ymlaen llaw, ond bod y pwyllgor yn cael gwybod am y niferoedd a dderbyniwyd a faint yr ymatebwyd iddynt.

- Gofynnodd y Cynghorydd M. Evans am ddeisebau; a ellid cyflwyno adroddiad ar faint o ddeisebau sy'n dod i mewn ac a ymatebwyd iddynt. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o sut y mae'r rhain yn cael eu cofnodi gyda Chyngor Dinas Casnewydd.
Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio wrth yr Aelodau, yn hytrach na phenderfyniad ar unwaith; y gall y swyddogion gyflwyno mwy o opsiynau iddynt o ran sut y gallai hynny weithio ym mis Ionawr. Gallai'r adroddiadau blynyddol fod ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu gallai gwasanaethau gasglu deisebau yn rhan o'u cynllun gwasanaeth. Mae cynllun adrodd gweithredol hefyd yn ddewis arall.

Cytunwyd:
Cadarnhaodd y Pwyllgor y byddai'n hapus gwneud penderfyniad gwybodus ym mis Ionawr.

5 **Diwygio'r Cyfansoddiad a'r Trefniant Staffio (Diweddariad i'r Cyflwyniad)**

Gwahoddedigion:
Leanne Rowlands – Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Gareth Price - Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Ymdriniodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ag adran gyntaf y gofyniad i ddiweddaru'r cyfansoddiad yn rhan o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ac esboniodd ei fod yn barod ar gyfer adolygiad llawn.

Pwyntiau Allweddol:
Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio wrth y Pwyllgor fod yr Aelodau eisoes wedi ystyried yr opsiwn o benodi Aelod Llywyddu am 2-3 blynedd, ond argymhellodd i'r Cyngor y dylai'r rôl faerol bresennol barhau. Gofynnodd y swyddogion i'r Aelodau heddiw ailystyried eu penderfyniad blaenorol ynghylch gweithredu model aelod llywyddu ar gyfer y dyfodol, yng ngoleuni'r adolygiad o'r trefniadau democrataidd, y newid i gyfarfodydd o bell/hybrid a'r agenda foderneiddio.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth grynodeb o'r pwyntiau yn y cyflwyniad ynghylch cael aelod ar wahân i gadeirio cyfarfodydd y Cyngor. Fe'i cyflwynwyd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru gan Lywodraeth Cymru gan fod cadeirio cyfarfodydd y Cyngor yn gofyn am wahanol sgiliau i rai rôl y Maer.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor wedi cyflwyno cais ffurfiol i uwchraddio rôl y Maer i statws Arglwydd Faer yn rhan o anrhydeddau Jiwbilî Platinwm y Frenhines fis Mehefin nesaf. Pe bai rôl y Maer yn cael ei uwchraddio, efallai y bydd mwy o alwadau ar amser yr unigolyn hwnnw hefyd.

Dywedodd y Swyddogion y byddai unrhyw newidiadau'n dod i rym o fis Mai nesaf gan fod symud i gyfarfodydd hybrid yn gofyn am wahanol sgiliau a nodon nhw fod llawer o awdurdodau eraill wedi gwneud hyn gan y gall yr Aelod hwnnw gadw ei swydd i adeiladu'r lefel honno o arbenigedd.

Cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai swydd yr Aelod Llywyddu yn swydd â thâl ac a fyddai dwy swydd; un yn ddirprwy.

  Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth y gallai'r Aelod Llywyddu ennill cyflog ychwanegol ond na fyddai'r dirprwy aelod yn ennill uwch gyflog. Cyflog yr Aelod Llywyddu fyddai £25,000.00 y flwyddyn. Roedd y Cyngor yn gallu talu uwch gyflog ychwanegol gan ei fod yn is na'r uchafswm o 18 o uwch gyflogau, a ragnodir gan y Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
  Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'n gwahanu rôl y Cyngor oddi wrth rôl y Maer. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Aelod Cabinet ymddiswyddo os yw'n dymuno bod yn Faer gan fod y gyfraith yn datgan na all Aelod Cabinet gadeirio cyfarfodydd y Cyngor llawn. Fodd bynnag, byddai cael Aelod Llywyddu ar wahân yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor yn rhyddhau Aelod Cabinet i fod yn Faer dan yr uwch rôl ac i gyflawni'r rôl ddinesig, er mai dim ond un uwch gyflog y byddai'n gymwys i'w gael.

- Dywedodd y Cynghorydd Watkins eu bod yn hapus â'r system sydd ar waith ar hyn o bryd a nododd, pe bai rôl y Maer yn cael ei huwchraddio i statws Arglwydd Faer; fod ganddynt Ddirprwy Faer a allai fod yn Aelod Llywyddu ac felly nid yw'n gweld y pwynt o ran creu swydd â chyflog £25,000.00.

- Anghytunodd y Cynghorydd Whitcutt â'r pwynt blaenorol a dywedodd fod angen sgiliau penodol i gadeirio cyfarfod fel cyfarfod y cyngor llawn a phwysleisiodd fod angen i'r Cyngor foderneiddio'r broses. Dadleuwyd y dylid gosod gwleidyddiaeth o'r neilltu gan fod rôl y Maer yn seremonïol. Mae cadeirio cyfarfodydd y Cyngor yn wleidyddol gan eu bod yn gwneud penderfyniadau a gall fod yn rôl ddadleuol iawn ar adegau. Dywedwyd bod rhai Aelodau sydd wedi dod yn Faer wedi'u dychryn gan gadeirio cyfarfodydd mawr. Gall rhai Aelodau fod yn fwy profiadol nag eraill. Cyfeiriodd y Cynghorydd Whitcutt hefyd at y pryder ynghylch cyflog; o'i gymharu â'r gyllideb o £270 miliwn a phwysleisiodd ei bod yn bwysig iddynt fod y siambr yn gweithredu'n effeithlon a bod gan yr Aelodau'r arbenigedd.

- Dywedodd y Cynghorydd Clarke y gallai cadeirio cyfarfodydd y Cyngor llawn atal Aelodau rhag dymuno bod yn Faer gan fod gan bawb sgiliau gwahanol. Yn enwedig o ran y cyfarfodydd hybrid gan fod y sgiliau sydd eu hangen yn wahanol i'r rheiny a oedd eu hangen flynyddoedd yn ôl gan fod y rôl wedi newid erbyn hyn. Gallai hefyd ryddhau amser y Maer.
  Dywedwyd y gallai Cynghorau eraill fod yn edrych ar hyn hefyd, gan ystyried bod 18 o uwch gyflogau ar gael; mae arian ar gael yn y gyllideb ar gyfer y rôl.

- Cytunodd y Cynghorydd Giles â phwynt y Cynghorydd Whitcutt a dywedodd ei bod yn bryd datblygu arbenigedd i sicrhau effeithlonrwydd y broses o wneud penderfyniadau. Eglurodd yr Aelod nad yw hyn yn feirniadaeth ar unigolion penodol gan eu bod yn cael eu taflu i'r swydd a gall ceisio cadeirio cyfarfod cyhoeddus cymhleth beri straen. Dywedodd y Cynghorydd Giles hefyd y byddai'r cais am statws Arglwydd Faer yn hwb mawr i'r Ddinas.

- Gofynnodd y Cynghorydd M. Evans i'r swyddogion gadarnhau pwy wnaeth y penderfyniad i wneud cais am statws Arglwydd Faer gan nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth am hynny. Dadleuodd yr Aelod nad yw dyrannu Aelod Llywyddu yn golygu y bydd yr unigolyn i gael y swydd yn wych a dywedodd nad yw cytuno i dalu

£25,000.00 y flwyddyn i gadeirio dim ond saith cyfarfod y flwyddyn yn rhywbeth ei fod am ei gefnogi. Pe bai'n benodiad blynyddol, efallai na fydd y grŵp yn hoffi dull gweithredu'r aelod ac efallai na fydd modd ei ddiswyddo. Y pryder mwyaf a fynegwyd oedd y gallai Aelod Cabinet hefyd ddod yn Faer; ac mae unrhyw un a fu'n Faer yn gwybod bod y rôl yn swydd llawn amser.

- Cafwyd trafodaeth ymhlith yr Aelodau ac anghytunodd y Cynghorydd Whitcutt â'r pwynt blaenorol drwy ddweud bod y sylw am y cyflog yn tanbrisio'r broses ddemocrataidd i roi cyflogau i swyddi. Ailadroddodd yr Aelod y pwynt cynharach fod y cyflog yn swm cymharol fach yn y gyllideb. Nodwyd ei bod yn rôl straenus gyda llawer o waith paratoi angenrheidiol. Mae'r Maer yn gwneud penderfyniadau gwleidyddol iawn yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn a dadleuwyd y dylid rhoi'r dasg honno i berson a ddylai allu ei gwneud. Dywedodd y Cynghorydd Whitcutt hefyd y gellid ymosod ar Feiri am bethau y maent yn penderfynu arnynt yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn drwy'r cyfryngau cymdeithasol a all arwain at ymosodiadau personol, sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Gallai ddiogelu'r Maer rhag hynny.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Clarke at grybwylliad y Cynghorydd M. Evans am y ffaith bod rôl y Maer yn swydd lawn amser; bydd hyn hyd yn oed yn fwy gwir os rhoddir y Statws Arglwydd Faer. Er yn cadeirio dim ond saith cyfarfod, y cyfarfodydd hynny yw'r cyfarfodydd pwysicaf sydd gan y Cyngor a'r Aelodau. Felly byddent am i'r proffesiynoldeb fod yn amlwg gan fod pawb wedi gweld enghreifftiau o fideos awdurdodau eraill ar y rhyngrwyd. Gan fod awdurdodau lleol eraill eisoes wedi gwneud hyn neu'n symud tuag at hyn, dylai'r Aelodau ei groesawu os ydynt am gadw Casnewydd i symud gyda'r oes.

- Nododd y Cadeirydd eu bod wedi gweld lleihad o ran rôl swyddfa'r Maer a rôl y digwyddiadau y gall eu cynnal/mynychu. Roedd gan y Cyngor swyddfa lawn o staff yn y gorffennol ond erbyn hyn nid oes ganddo'r un swm o adnoddau.

  Mewn ymateb, nododd Pennaeth y Gwasanaeth na fu unrhyw leihad o ran rôl y Maer. Oherwydd toriadau yn y gyllideb a mesurau llymder, mae swm y gyllideb Faerol a wariwyd ganddynt ar gynnal digwyddiadau'r Cyngor wedi gostwng, ond mae'r Maer yn parhau i gael ei gefnogi'n llawn i fynychu digwyddiadau allanol. Er nad oedd swyddog maerol penodol mwyach, roedd y gwaith cymorth yn cael ei wneud gan yr holl Dîm Llywodraethu, felly nid oedd lleihad o ran y cymorth. Nid oedd cyfyngiad i hynny yn y gorffennol ac nid yw'r Cyngor yn dymuno lleihau rôl y Maer oherwydd llai o adnoddau. Mae Cyngor Bwrdeistref Torfaen wedi diddymu swydd y Maer yn llwyr – nid yw Casnewydd erioed wedi cefnogi hyn.

  Eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth na fyddai lleihad yn y rôl dros y blynyddoedd. O ran costau, nid yw'r £25,000.00 yn swm ychwanegol gan ei fod yn cynnwys cyflog sylfaenol yr Aelodau. Byddai'n £9-10,000.00 ychwanegol ar ben cyflog yr aelod sylfaenol.

  Mewn ymateb i bwynt y Cynghorydd M. Evans ar yr Aelodau Cabinet yn gwneud swydd Maer ar yr un pryd, eglurodd y Pennaeth y Gwasanaeth nad oeddent yn awgrymu y gallent wneud hynny ond byddai'r rhwystr cyfreithiol yn cael ei ddileu gan na all yr Aelodau Cabinet redeg fel Maer os ydynt yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor llawn.

  Dywedwyd wrth yr Aelodau y gallant argymell bod y weithdrefn Faerol yn parhau ac nad oeddent yn awgrymu y gallai ddigwydd, fodd bynnag, mae bod yn Aelod Cabinet yn ymrwymiad llawn amser yn yr un modd â bod yn Faer a gallai'r Arglwydd Faer godi'r statws hwnnw.

- Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r swyddfa Faerol yn cael ei huwchraddio gyda mwy o adnoddau pe bai Cyngor Dinas Casnewydd yn cael y statws Arglwydd Faer.

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth nad ydynt wedi cael gwared ar y gefnogaeth i'r Maer ond mae'r gyllideb ar gyfer y Maer a lletygarwch wedi'i lleihau oherwydd yr angen i wneud arbedion cyllidebol. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes un swyddog maerol, ond bod nifer o Swyddogion Llywodraethu i gefnogi'r Maer a'r gyrwyr. Pe bai'r Maer yn cael y statws Arglwydd Faer, dylai'r Cyngor allu darparu ar gyfer hynny gyda'r adnoddau presennol.

- Diolchodd y Cynghorydd M. Evans i'r swyddogion am yr eglurhad ar yr Aelodau Cabinet. A gofynnodd sut y cytunodd y Cyngor ar y cais am y statws Arglwydd Faer gan y bydd yr Aelodau eraill yn gofyn cwestiynau ynghylch y gwaith ychwanegol i'r Maer. A chyda'r teitl newydd; sut y gallai hynny greu gwaith ychwanegol.

  Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio mai drwy ail-gais y gwnaeth y Cyngor gais am y statws Arglwydd Faer yn ôl yn 2011. Paratowyd y cais hwn gan dîm o swyddogion dan arweiniad Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm digwyddiadau. Cefnogodd Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd y cais ac anogwyd y Cyngor gan swyddfa'r Arglwydd Raglaw i wneud cais. Cyflwynwyd datganiad o ddiddordeb.

  Ar yr ail bwynt o ran y llwyth gwaith; byddai mwy oherwydd y statws a'r gwahanol fathau o ddigwyddiadau. Ni fyddai cynnydd yn y llwyth gwaith gan fod y Cyngor yn gweithio gyda'r holl Feiri i gytuno ar raglen waith sy'n cyd-fynd â'r hyn y gallant/eisiau ei wneud fel Maer. Mae'n bwysig bod Meiri'n mwynhau eu rôl fel Maer ac nad yw'r Cyngor yn eu llethu â llwythi gwaith.

- Defnyddiodd y Cynghorydd C. Evans enghraifft o rôl siaradwyr cyhoeddus yn y Senedd i weld sut y cânt eu hethol i sicrhau didueddrwydd. Awgrymwyd y byddai angen o leiaf tri enwebiad o wahanol bleidiau wrth ethol y siaradwr. Er mwyn dangos tryloywder a diffyg rhagfarn, gallai'r Swyddog Llywyddu ysgrifennu yn unol â'r cyfansoddiad os oes rhywun am gael y swydd, byddai'n rhaid iddo ganfasio cefnogaeth a chael cryn dipyn o'r wrthblaid i gytuno hefyd. O ran cyflog, ni all fod yn ymwneud â chyfleustra gwleidyddol. Ystyriwyd ei fod yn gyflog bychan mewn trafodaeth gynharach. Dylid gwneud y penodiad ar sail talent a gallai Cyngor Dinas Casnewydd gopïo mecanwaith Tŷ'r Cyffredin. Awgrymwyd y gallent ei ymgorffori yn y cyfansoddiad lle mae'n rhaid i Aelod hunan-enwebu a bod yn dryloyw yn unol â Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r rôl yn cael ei rhoi ar chwarae bach.

- Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor pe bai'r cais am y Statws Arglwydd Faer yn methu, a fyddai'r penodiad i swydd yr Arglwydd Faer yn methu hefyd.

  Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth na fyddai'r penodiad i swydd y Swyddog Cyfrif yn methu. Gan mai'r cyfiawnhad dros y rôl yw'r sgiliau ar gyfer y trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd hybrid wrth symud ymlaen felly byddai'r cwestiwn yn parhau.

  Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio pe bai'r Cyngor yn mynd i lawr y llwybr hwnnw; byddai'r Cyngor yn penodi i'r swydd. Cadarnhawyd na chafwyd unrhyw awgrym y byddai'n swydd wleidyddol a phan fyddant yn penodi Aelod Llywyddu; rhaid i'r ffordd y maent yn cyflawni'r rôl honno fod yn anwleidyddol. Byddai'r Cyngor yn cytuno ar hyn pe bai'r Pwyllgor yn cyflwyno'r argymhelliad iddo.

- Dywedodd y Cynghorydd C. Evans fod model Llywodraeth Cymru yn wahanol i fodel Dau Dŷ'r Senedd felly byddai'n rhaid iddo fod yn dryloyw o ran y penodiad a gellid argymell bod yr Aelodau'n edrych ar y model i ethol Aelod Llywyddu posibl gan edrych ar y mecanweithiau a ddefnyddir i ethol siaradwr cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

- Cymeradwyodd Cadeirydd y Pwyllgor y system bresennol ar gyfer y Faeryddiaeth sy'n cyflawni dyletswyddau dinesig gan fod addunedu diduedrwydd yn sefyll yn dda gyda llywyddu dros gyfarfodydd y Cyngor a nododd fod trosiant naturiol y swydd honno bob blwyddyn yn iach ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor.

Argymhellion:
Pleidleisiodd y Pwyllgor ar y model newydd a argymhellwyd. Cafwyd 4 pleidlais o blaid penodi Aelod Llywyddu a 4 yn ei erbyn (roedd y Cynghorydd Hourahine wedi gadael y cyfarfod erbyn hyn ac ni wnaeth fwrw pleidlais). Nid oedd y Cadeirydd am gynnal ail bleidlais gan y byddai angen i'r Cyngor llawn ystyried yr argymhelliad.

Cytunwyd:
Cytunodd y Pwyllgor i'r penderfyniad gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

6 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dydd Mawrth 18 Ionawr - 10am - 12pm

7 **Digwyddiad Byw**

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, 13 Rhagfyr 21 - YouTube